



Cael dyfynbrisiau ac amcangyfrifon

Os ydych yn gwneud cais am grant i brynu offer, i wneud gwaith adeiladu, neu i ddarparu gwasanaethau, bydd angen i chi gytuno ar beth yn union sydd eisiau arnoch chi, ac yna cael dyfynbrisiau gan gyflenwyr neu gcontractwyr. Bydd y gost debygol yn dylanwadu ar yr hyn byddwn ni ei angen wrthy ch chi:

- **Ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sy'n debygol o gostio llai na £5,000:** bydd angen un dyfynbris ysgrifenedig.
- **Ar gyfer nwyddau a gwasanaethau £5,000-£20,000:** bydd angen manyleb a thri dyfynbris ysgrifenedig.
- **Ar gyfer nwyddau a gwasanaethau £ 20000 +:** bydd angen manyleb fanwl a thendro cystadleuol.

Os oes gennych unrhyw amheumon am yr hyn sydd ei angen – neu (er enghraifft) os gallwch chi dim ond darparu un dyfynbris oherwydd mai dim ond un cyflenwr sydd ar gael ar gyfer y nwyddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch, cofiwch siarad â ni.

Gwario Arian Grantiau yn Lleol

Mae Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn awyddus i gefnogi busnesau a chyflenwyr lleol drwy'r grantiau mae'n rhoi. Rydym am sicrhau, cyn belled â phosibl, bod y grantiau rydym yn buddsoddi mewn cymunedau yn aros yn y cymunedau hynny, tra'n sicrhau bod y costau ar y cyfan yn gystadleuol ac dangos gwerth am arian.

Pan fyddwch yn prynu gan fusnes annibynnol lleol, yn hytrach na busnes a berchnogir yn genedlaethol, bydd mwy o'ch arian yn cael ei ddefnyddio er mwyn prynu nwyddau gan fusnesau a darparwyr gwasanaethau lleol eraill — gan helpu cryfhau'r economi lleol.

Bydd eich cais yn gryfach o ddangos y byddwch yn defnyddio contractwyr lleol ac yn prynu o siopau lleol lle bynnag y bo modd. Os hoffech chi ddefnyddio cyflenwr lleol ond eu bod yn ddrutach na rhai o lefydd eraill, esboniwch y sefyllfa a chyflwynwch eich dadleuon i ni.